



Cynigion Busnes - 3ydd tymor

1 Ebrill 2026 – 31 Mawrth 2031

Wedi eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd ar ddydd Mawrth 16 Medi 2025

Cynnwys

- 1 Cynigiwr AGB
- 2 Cynllun Busnes AGB
- 3 Trefniadau ariannol a llywodraethu
- 4 Ymgynghoriad ar dalwyr lefi
- 5 Cronfa ddata pleidleiswyr
- 6 Hysbysiad ysgrifenedig
- 7 Cost y bleidlais
- 8 Gwasanaethau Sylfaenol a Chytundeb Gweithredu
- 9 Ffin AGB

Atodiad 1: Cynllun Busnes AGB HWB Caernarfon (fersiwn word)

Atodiad 2: Arolwg Talwyr Lefi

Atodiad 3: Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Atodiad 4: Llythyr hysbysiad i Lywodraeth Cymru

Atodiad 5: Llythyr ffurfiol at Gyngor Gwynedd yn gofyn i wasanaethau etholiadol gynnal pleidlais

Atodiad 6: Map Ffiniau AGB Caernarfon

Atodiad 7: Llythyrau Cefnogaeth i'r AGB

Atodiad 8: Cytundeb Gwaelodlin Arfaethedig (derbyniwyd fersiwn ddiwygiedig 18/8/25)

Atodiad 9: Cytundeb Gweithredol Arfaethedig (heb ei ddiwygio gan Gyngor Gwynedd hyd yma)

1 Cynigiwr AGB

Y cynnig AGB yw HWB Caernarfon, cwmni nid-er-elw cyfyngedig trwy warant a sefydlwyd yn 2013 (wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr rhif cwmni 09959600) i oruchwylio AGB HWB Caernarfon. Mae'r erthyglau cymdeithas ar gael ar gais.

Bydd HWB Caernarfon yn cyflwyno'r cynllun busnes trydydd tymor pe bai'r AGB yn cael ei bleidleisio yn y bleidlais sydd i ddod.

2 Cynllun Busnes AGB

Bydd copi o Gynllun Busnes AGB (atodiad 1) yn cael ei gyhoeddi i holl dalwyr lefi AGB erbyn 5 Rhagfyr 2025.

Wedi'i sefydlu yn 2016, mae HWB Caernarfon yn Ardal Gwella Busnes, wedi'i hariannu a'i harwain gan fusnesau i gyflawni mentrau er budd Caernarfon. Ein cenhadaeth yw hyrwyddo'r dref a darparu cymorth busnes i'n haelodau, cefnogi digwyddiadau a gwyliau, croesawu ymwelwyr, helpu i gynnal canol tref deniadol, a gweithio ar y cyd â busnesau lleol a sefydliadau allweddol i ysgogi gwelliannau.

Er mwyn cyflawni ein comisiwn, bydd HWB Caernarfon yn canolbwyntio ar bedair thema allweddol fel y'u blaenoriaethwyd gan ein haelodau (pleidleisiodd 80% o'r busnesau yr ymgynghorwyd â nhw bob un o'r pedair thema yn hanfodol neu'n bwysig) gyda'r arian wedi'i ddyrannu fel y bo'n briodol ac yn unol â'r gyllideb yn y cynllun busnes:

1. **Yn Falch o Hyrwyddo:** codi proffil Caernarfon, cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant ymwelwyr, o fudd i'n busnesau a'n cymuned.
2. **Glân, Gwyrdd ac Eco-gyfeillgar:** creu tref fywiog, deniadol, hygyrch, a phrofiad unigryw i'n hymwelwyr.
3. **Man Diogel:** hyrwyddo lles, darparu mannau diogel, ac amgylchedd croesawgar i'n hymwelwyr a'n trigolion.
4. **Cryfach Gyda'n Gilydd:** darparu cymorth o safon i'n haelodau, gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid, sicrhau cynhwysiant.

3 Trefniadau Ariannol a Llywodraethu

I weld y gyllideb amlinellol o bum mlynedd ar gyfer HWB Caernarfon, trefniadau llywodraethu a rheolau ar gyfer pwy sy'n atebol am y lefi, gweler y cynllun busnes yn atodiad 1.

4 Ymgynghoriad â Thalwyr Lefi

Mae HWB Caernarfon yn ymgynghori'n barhaus â busnesau ar y materion sy'n effeithio arnynt nhw a chanol y dref yn fwy cyffredinol, gyda digon o gyfleoedd i'n haelodau roi eu hadborth, eu cynigion a'u syniadau i ni.

- Anfonir gylchlythyrau o leiaf yn chwarterol at 120 o fusnesau sydd wedi cofrestru i dderbyn ein bwletinau digidol.
- Mae 12 cylchlythyr wedi'u cyhoeddi yn ystod y deuddeg mis diwethaf.
- Amgaewyd Gwybodaeth Ddefnyddiol ynghyd â bil lefi 2025/26 yr aelodau, gan gynnwys dogfen wybodaeth ariannol a thaflen yn tynnu sylw at gyflawniadau a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn.
- Rydym yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thalwyr lefi a'r gymuned ehangach.

- 4,735 o ddilynwyr ar Facebook HWB Caernarfon.
- Mae rheolwr HWB Caernarfon yn rheolaidd o gwmpas y dref, yn ymweld â'r busnesau a chysylltu â nhw.
- Cynhaliwyd 4 sesiwn galw heibio ym mis Mehefin a Gorffennaf 2025, lle cafwyd gwahoddiad agored i fusnesau ddod i siarad â'n rheolwr ac aelod o'r Cyfarwyddwyr Bwrdd.
- Gwahoddir yr holl aelodau i Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol HWB Caernarfon. Cynhaliwyd y diweddaraf yng Nghlwb Hwyllo Caernarfon ar 9 Gorffennaf 2025.

Yn ogystal, cynhaliodd HWB Caernarfon ddau arolwg fel rhan o'i broses ymgynghori trydydd tymor:

- i) Arolwg ciplun ym mis Chwefror 2025 a gynhaliwyd gan dîm HWB Caernarfon i asesu awydd cynnar am yr AGB ac awgrym o brosiectau AGB 3 tebygol i'w harchwilio ymhellach.
- ii) Arolwg helaeth ym mis Mehefin a Gorffennaf 2025 (gweler atodiadau 2 a 3) a gynhaliwyd gan *Ymgynghori Lafan*, sy'n nodi cynnwys tebygol y cynllun busnes trydydd tymor.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys manylion prif weithgareddau a chyflawniadau ail dymor yr AGB.

Mae canlyniadau'r arolygon yn rhoi hyder a chadarnhad i'r Bwrdd bod mandad ardderchog i fwrw ymlaen ag ysgrifennu'r cynllun busnes a mynd â'r AGB drwodd i bleidlais am drydydd tymor.

Mae'r adroddiad gan *Ymgynghori Lafan* yn seiliedig ar adborth yr arolwg wedi'i gynnwys yn atodiad 3.

5 Cronfa Ddata Pleidleiswyr

Mae HWB Caernarfon wedi derbyn data wedi'i ddiweddarau gan Gyngor Gwynedd ar 12 Mehefin 2025 yn manylu ar enwau a chyfeiriadau'r holl hereditamentau sy'n atebol i dalu'r lefi AGB.

Gofynnir am gronfa ddata arall ym mis Rhagfyr 2025 i gwblhau'r rhestr bleidleiswyr cyn i'r hysbysiadau pleidleisio gael eu cyhoeddi. Dim ond at ddibenion adnewyddu'r AGB y defnyddiwyd gwybodaeth yn unol ag arferion diogelu data da.

Bydd cronfa ddata lawn i bleidleiswyr yn cael ei hanfon at Siôn Huws yn y tîm etholiadau erbyn 16 Rhagfyr 2025 er mwyn caniatáu digon o amser i gyhoeddi'r hysbysiad pleidleisio ddydd Mawrth 6 Ionawr 2026 gyda phapurau pleidleisio i'w hanfon ddydd Mawrth 20 Ionawr 2026. Mae trafodaethau manwl wedi cael eu cynnal rhwng Cyngor Gwynedd a'r tîm etholiadau i sicrhau bod y broses ddemocrataidd yn gallu rhedeg yn esmwyth.

6 Hysbysiad Ysgrifenedig

Mae HWB AGB Caernarfon wedi cydymffurfio â deddfwriaeth AGB mewn perthynas â'r gwahanol hysbysiadau sy'n ofynnol. Mae llythyr wedi'i gyhoeddi at Lywodraeth Cymru ar 17 Ebrill 2025 yn rhoi hysbysiad o fwriad AGB Caernarfon i fynd i bleidlais AGB (atodiad 4).

Ar 13 Mai 2025 anfonwyd llythyr at Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn gofyn i Gyngor Gwynedd gynnal y bleidlais ar ran AGB HWB Caernarfon gyda nodyn yn cadarnhau bod disgwyl i'r cynigion terfynol gael eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd erbyn Hydref 2025. Mae llythyr ffurfiol arall, wedi ei ddyddio 16 Medi 2025, yn gofyn am gynnal pleidlais wedi ei atodi (atodiad 5).

Yr hysbysiad nesaf i'w gyhoeddi fydd yr hysbysiad pleidleisio ddydd Mawrth 6 Ionawr 2026 ac yna cyhoeddi papurau pleidleisio ddydd Mawrth 20 Ionawr 2026.

7 Cost y bleidlais

Yn unol â deddfwriaeth AGB, Rheoliad 20 o dan *Reoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005*, bydd cost y bleidlais yn cael ei dalu gan Gyngor Gwynedd (Deiliad y Bleidlais).

Mae HWB AGB Caernarfon wedi rhoi cronfa wrth gefn o £3,000 o'r neilltu, sydd ar gael pe bai Cyngor Gwynedd yn gofyn iddi dalu'r costau pleidleisio oherwydd amgylchiadau sy'n codi yn rheoliad 10 o *Reoliadau Dosbarthau Gwella Busnes (Cymru) 2005*, sef:

- Canlyniad y bleidlais yw pleidlais 'na', **a**
- Mae nifer y pleidleiswyr cymwys yn y bleidlais yn llai na 20%

8 Gwasanaethau Sylfaenol a Chytundeb Gweithredu

Mae'r Cytundeb Gwasanaethau Sylfaenol yn nodi'r gwasanaethau safonol sylfaenol a ddarperir ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd. Mae cytundeb diwygiedig wedi'i baratoi gan Gyngor Gwynedd a'i dderbyn gan HWB AGB Caernarfon ar 18 Awst 2025. Bydd y ddau barti yn llofnodi'r cytundeb pan fydd yr AGB yn dechrau ei dymor newydd. Bydd copi o'r cytundeb gwaelodlin ar gael ar gais. (gweler atodiad 8)

Mae'r Cytundeb Gweithredu yn cadarnhau'r trefniadau y bydd yr Lefi AGB yn cael ei chasglu ynghyd â threfniadau cyffredinol ynghylch y berthynas sydd i'w sefydlu rhwng Cyngor Gwynedd a HWB AGB Caernarfon am gyfnod tymor yr AGB. Mae cytundeb diwygiedig wedi'i baratoi gan Gyngor Gwynedd a'i dderbyn gan HWB AGB Caernarfon. Bydd y ddau barti yn llofnodi'r cytundeb pan fydd yr AGB yn dechrau ei dymor newydd. Bydd copi o'r Cytundeb Gweithredu ar gael ar gais. (gweler atodiad 9)

9 Ffin AGB

Mae'r strydoedd canlynol (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol) wedi'u cynnwys o fewn ffin AGB. Mae map yn dangos yr ardal dan sylw:

Allt Pafiliwn	Lôn y Felin
Banc Cei	Stryd Newydd
Balacafa	Stryd Niwbwrch(Eagles Hotel)
Stryd Bangor	Fford Y Gogledd (Rhif 14 Alexandra, Gorsaf betrol Morrisons, Garej Moduron Menai)
Y Bont Bridd	Styd Pedwar a Chwech
Pendeitsh	Penrallt Uchaf
Allt y Castell	Stryd y Plas
Y Maes	Pepper Lane

Castle Street / Stryd y Castell	Penllyn
Tre'r Gôf	Pen y Graig
Lôn yr Eglwys	Pen Llyn
Stryd yr Eglwys	Stryd Y Llyn
Doc Fictoria	Rhes Pretoria
Stryd Garnon	Rhes Segontium
Glan Môr / Glan Môr Uchaf (Turkey Shore & Crown Street)	Stryd y Jêl
Tan y Bont	Cei Llechi
Stryd Fawr	Stryd Capel Joppa
Stryd Twll yn y Wal	Penrallt Isaf
Lôn Crwyn	Lôn Parc
Lôn Twthill	Ffordd Santes Helen
Stryd y Farchnad	Stryd y Porth Mawr

